

# Duw pentref

*“Yn y lle cyntaf, felly, yr wyf yn annog bod ymbiliau, gweddiâu, deisyfiadau a diolchiadau yn cael eu hoffrymu dros bawb.” (adn. 1)*

## Beth am ddarllen 1 Timotheus 2:1–15 ac yna myfyrio

Mae'r cariad y mae Duw yn ei genhedlu ynom ni drwy olwg ar ei gariad ef yn ymestyn i amgylchynu'r byd i gyd. Y mae'r Cristion yn darganfod fod Duw wedi ein caru yn bersonol, ond mae hefyd yn darganfod nad yw Duw wedi ein caru ni yn unig. “Canys felly y carodd Duw y byd,” meddai Ioan 3:16, “fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab.” (B.W.M.) Mae'r cariad yma yn symud tuag at bawb y mae Duw yn ei greu, pob gŵr a gwraig o fewn y bydysawd. Maent un ac oll yn wrthrychau ei ofal, ffyddlondeb a'i gariad. Pan fo'r cariad hwn yn llifo i mewn i'n calon ni, ni allwn lai na charu fel ag y bu iddo ef ein caru. Sut y mae'n bosibl i ni beidio â gweld y byd y mae Duw wedi ei garu os yw cariad Duw ynom ni?

Mae John Stott yn adrodd unwaith iddo fynd i mewn i eglwys mewn pentref bychan tra oedd ar ei wyliau ac yn teimlo braidd yn anesmwyth wrth iddo wrando ar weddi'r person oedd yn arwain y gwasanaeth. Dim ond munud neu ddau oedd hyd y weddi, a'r weddi honno'n canolbwyntio yn gyfan gwbl ar anghenion y gynulleidfa a'r pentref. Gan nad oedd yna unrhyw weddiâu dros y byd ehangach, fe ddaeth John Stott i'r casgliad fod y pentref yma hefo Duw pentrefol. Y mae cariad at Dduw i fod i ehangu ein persbectif fel bod ein consŷrn, ein gofal a'n gweddi ni, nid yn unig dros ein cymunedau lleol, ond dros y byd yn gyfan.

Edrychwch eto ar yr adran o'n blaen heddiw lle nodir fod ein hymbiliau, ein gweddiâu, a'n deisyfiadau i fod i gael eu hoffrymu dros bawb, dros frenhinoedd, dros rai mewn awdurdod ac yn y blaen. Wrth inni ddal sylw ar y gwirionedd fod Duw wedi ein caru, yr ydym yn darganfod hefyd ein bod ni i garu, nid â'n cariad ein hunain, ond â'r cariad sydd wedi ei roi i ni, wedi ei eni ynom ni trwy'r Ysbryd Glân, cariad sydd yn ein cymell ac i garu pawb.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 28:18–20; Ioan 3:14–17; Actau 11:27–30; 17:22–34

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae meddiannu gweledigaeth fyd-eang?
2. Beth yw ein cyfrifoldebau byd-eang?

## Gweddi

O Dad, dyro'r cariad hwn i mi, cariad tuag at bawb, a chaniatâ i ni fedru amlygu y cariad hwn yn ein holl weithredoedd. Wrth i mi ildio i dy gariad, caniatâ fod y cariad hwnnw yn llifo drwof tuag at bawb o'm cwmpas. Yn enw Iesu. Amen.